

Partneriaeth Talysarn & Nantlle



Bwletin Ward Talysarn

Hydref - Rhagfyr 2006

FFAIR WYBODAETH

DYDD IAU 15 CHWEFROR 2007

10yb – 3.30yp / CANOLFAN CYMDEITHASOL TALYSARN

Cyfle arbennig i glywed gan nifer o asiantaethau am y gwasanaethau sydd ar gael i bob oedran o'r cyhoedd. Ein bwriad yw creu ymwybyddiaeth er mwyn ceisio lleihau trosedd ac adeiladu cymuned ddiogel a llewyrchus i bawb.

**CYFLE I ENNIL
2 FEIC!**

Bydd gan pob asiantaeth fydd yn cymeryd rhan ei stondin ac arddangosfa, gyda cynrychiolydd yn barod i ateb unrhyw gwestiwn, cyflwyno gwybodaeth a chynnig unrhyw gymorth.

**ANRHEGION
AM DDIM!**

Trwy weithio mewn partneriaeth gyda nifer o asiantaethau bydd y diwrnod arbennig yma yn cynnig rhywbeth at ddant pawb, hwyl a gemau, arddangosfeydd, gwybodaeth ac anrhegion yn rhad ac am ddim i bob oedran. Bydd cystadleuaeth arbennig yn cael ei gynnal ar y diwrnod, gyda beic newydd yn wobwr i'r enw cyntaf, a'r ail, ddaw allan o'r het.

Bydd y Gwasanaeth Tân yn dangos sut i ddefnyddio larwm tân ac yn gwirio eich blancedi trydan. Os byddent yn gweld nam arnynt, yna byddent yn eu newid am un newydd yn rhad ac am ddim.

Hefyd, bydd Fferyllydd ar gael rhwng 12yp a 3yp i ateb unrhyw gwestiynau gennyh.

**PEIDIWCH Â CHOLLI
ALLAN! MAE RHYWBETH
I BAWB AR Y DIWRNOD
- A HYN I GYD AM DDIM!**

ARDDANGOSFEYDD

PANED A SGWRS

**GWYBODAETH A
CHYNGOR**

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethtalysarnanant@btopenworld.com



communities first cymunedau yn gyntaf



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

SIOP SIARAD

Bydd y siop ar agor i glebran am hyn a llall bob nos lau o 7yh - 9yh. Os gafoch chi gemau newydd y 'Dolig yma dewch a nhw i'r siop i ni gael cystadleuaeth.

Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw syniadau gan bobl ifanc

ASTUDIAETH TWRISTIAETH DYFFRYN NANTLLE

Lawnsiwyd Astudiaeth Twristiaeth Dyffryn Nantlle fis Rhagfyr 2006.

Mae Antur Nantlle yn ddiolchgar i Bartneriaeth Talysarn a Nantlle a Chymunedau'n Gyntaf am gefnogaeth ariannol i wneud yr astudiaeth, gyda'r gymuned wedi cael y cyfle i ddweud eu dweud a hyn wedi ei gyhoeddi fel adroddiad swyddogol gan yr Antur. Mae ganddom sylfaen i adeiladu datblygiad twristiaeth yn yr ardal ar sail yr hyn mae pobl leol eisiau weld yn digwydd.

Mae copi o'r astudiaeth ar gael yn swyddfa Antur Nantlle Penygroes 01286 882688.

CANOLFAN CYMDEITHASOL TALYSARN

Roedd y tri mis diwethaf yn gyfnod prysur iawn i'r Ganolfan, yn enwedig yr wythnosau yn arwain i'r Nadolig. Roedd y gweithgareddau a gynhaliwyd yn amrywio o fod yn gynadleddau, cyfarfodydd, meithrinfa, ioga, grwpiau yn ymarfer, noson canu carolau a phartion Nadolig. Un llwyddiant mawr oedd y Cinio Nadolig a drefnwyd gan y Ganolfan i'r gymuned, gyda bron i 40 o bobl lleol yn mwynhau 4 cwrs bendigedig a idolch i blant Ysgol Talysarn am gael eu clywed yn canu.

Yn ôl pwyllgor y Ganolfan roedd yr holl waith o baratoi, yn enwedig trefnu y bwyd, wedi datblygu sgiliau yr aelodau a'r gwirfoddolwyr a gymerodd ran.

Mae'r Ganolfan yn cynnig gwasanaeth eang i'r gymuned. Unrhyw un sydd â diddordeb llogi yr Ganolfan i gynnal parti penblwydd, parti bedydd, parti priodas neu unrhyw achlysur arall cysylltwch â:

1. Carys Pritchard 07902319700
2. Helen Hall 07902316661
3. Y Ganolfan 01286 881569



Pawb yn mwynhau eu bwyd



Plant Ysgol Talysarn yn canu'n fendigedig

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

GRWP AMGYLCHEDD TALYSARN A NANTLLE

Cawsom Ddiwrnod Ailgylchu llwyddiannus yng Nghanolfan Talysarn dydd Sadwrn 7 Hydref. Bu Jan a Joan yn dangos sut i wneud matiau clwt a mygydau, Margaret yn gwneud gwesty pryfed a theclyn bwydo adar allan o hen ddarnau o bren, Ailsa ac Eleri yn trefnu'r cwis a'r raffl addewidion ac roedd hefyd stondinau crefftwaith gwydr wedi ei ailgylchu a oedd yn boblogaidd iawn. Bu nifer o bobl yn arwyddo i gael bin compost a bin glas yn rhad ac am ddim ac yn dewis i beidio â derbyn llythyrau sgrwtsh drwy'r post.

Diolch i Mary am ofalu am y stodin ffeirio llyfrau, teganau a dillad ac i Emma a Sophie am wisgo i fyny mewn dillad wedi eu creu allan o hen bapurau newydd a defnydd. Roedd y genod yn glyfar iawn yn cerdded ar stilts. Roedd pawb yn canmol y cawl blasus llysiâu Trigonos a'r sgons a theisenau anfarwol. Diolch i Carys a'r merched a oedd yn gofalu am y gegin am eu gwaith caled.

Enillydd y cwis oedd Sophie ac enillwyr y raffl oedd Mrs White, Mrs Lindon, Elaine Taylor, Gwynedd Williams, Mary Moret, Jane Williams a Brenda Griffiths.

Braf oedd gweld cymaint o ddiddordeb sydd gan bobl yn eu amgylchedd a pha mor awyddus ydyn nhw i ailgylchu er mwyn gwarchod harddwch y dyffryn. Rydym yn gobeithio cynnal Diwrnod Ailgylchu arall cyn bo hir felly peidiwch a thafu dim, rhag ofn.

Yn dilyn y Diwrnod Ailgylchu cawsom fwy o aelodau i'r Grŵp Amgylchedd ond cofiwch mae croeso i chi ymuno â ni. Rydym yn cynnal ein cyfarfodydd unwaith bob mis yn Trigonos neu yn y Ganolfan. Yn y Gwanwyn rydym yn bwriadu cynnal Diwrnod Ynni Cynladwy. Fel y gwyddoch mae prisiau nwy a thrydan wedi codi'n aruthrol, felly dyma gyfle i chi weld sut y medrwyd arbed arian twy ddefnyddio dulliau eraill o greu ynni.

Y prosiect diweddaraf sydd gennym ar y gweill yw Prosiect Mabwysiadu Afon. Gyda chymorth Lee Oliver o Cadw Cymru'n Daclus rydym yn astudio bywyd gwyllt Afon Llyfnwy ac yn bwriadu gwella'r llwybr cerdded ar hyd yr afon o Dalysarn i ben draw Hyfrydle. Bydd plant ysgolion lleol yn cymryd rhan yn y prosiect er mwyn dysgu ychydig am eu hamgylchfyd ac mae croeso i unrhyw un arall ymuno â ni yn y fenter cyffrous yma.

GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED

Mae Partneriaeth Talysarn a Nantlle mewn cydweithrediad â Chyngor Gwynedd yn awyddus tefnu cyfres o weithgareddau awyr agored i bobl ifanc yn ystod gwyliau'r ysgol.

Bydd y gweithgareddau yn cynnwys dringo ac abseilio, mynydda, 'orientering', cerdded ceunant, beicio, canwïo, cwrs rhaffau uchel, tasgau tîm, saethu â bwa, rafftio dŵr gwyn a merlota.

Unrhyw un â diddordeb i gymeryd rhan i gysylltu â Darryl, Wena neu Dafydd yn swyddfa'r Partneriaeth 01286 881103.

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

CLWB SILYN

Mae Clwb Silyn wedi bod yn brysur iawn dros y misoedd diwethaf. Ar ôl agor yn ôl fis Medi 2006 ar ol y gwyliau haf cafwyd paned a sgwrs ac yna gêm o Bingo i bawb. Fis Tachwedd aeth y criw i Landudno i ddechrau ar eu siopa 'Dolig a chafwyd diwrnod bendigedig o braf yno a phawb wedi mwynhau'n arw. Aeth y criw i'r 'Stables' am eu cinio Nadolig y flwyddyn yma a phawb wedi mwynhau'n arw, yn enwedig ymweliad Sion Corn yno gydag anrheg i bawb!

DYDDIADAU CYFARFOD Y BARTNERIAETH 2007

Ionawr 8	-	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
Chwefror 5	-	Llys Llywelyn Nantlle
Mawrth 5	-	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
Ebrill 2	-	Llys Llywelyn Nantlle
Ebrill 30	-	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
Mehafin 4	-	Llys Llywelyn Nantlle
Gorffennaf 2	-	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
Medi 3	-	Llys Llywelyn Nantlle
Hydref 1	-	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
Tachwedd 5	-	Llys Llywelyn Nantlle
Rhagfyr 3	-	Canolfan Cymdeithasol Talysarn

BLWCH SYNIADAU

Os oes gennych chi syniadau yr hoffech i'r Bartneriaeth eu hystyried, rhowch nhw yn y blwch yma a'i ddanfon at Dafydd Williams yng Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn.

Enw:

Cyfeiriad:

Syniadau:

.....

.....

.....

.....

**AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn**

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethtalysarnnant@btopenworld.com